

Astudiaeth achos Coleg Pen-y-bont ar Ogwr – lleoliadau gofal plant yn ystod pandemig

Rydym wedi derbyn cefnogaeth gan rai o'n darparwyr lleoliad rhagorol i alluogi dysgwyr i gwblhau eu lleoliad dysgu a gafodd ei ohirio. Golyga hyn ein bod, gyda gobaith, ar y trywydd cywir i alluogi'r dysgwyr i gwblhau eu lleoliad dysgu a derbyn eu cymwysterau. O ganlyniad byddant yn medru ymuno gyda gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant neu astudio'n ymhellach – serch chwe mis yn hwyrach nag yr oedd unrhyw un ohonom wedi'i gynllunio!

Mae dau beth yn ganolbwynt i'n llwyddiant – cyfathrebu a pharatoi.

Mae gan ein hadran dîm o aseswyr gofal plant ac maent wedi cyfathrebu'n rheolaidd â staff ysgolion cyn cytuno ar leoliadau, yn ystod y cyfnod paratoi a thra roedd y dysgwyr yn y lleoliad. Mae ymweliadau aseswyr yn cael eu cadw i'r lleiafswm gofynnol a chynhelir trafodaethau ychwanegol trwy ddulliau priodol eraill sy'n addas i bawb. Cadwodd dysgwyr a staff colegau at yr holl ofynion iechyd a diogelwch a osodwyd drwyddi draw.

Mae'r coleg wedi cynnal cyfres o weithgareddau paratoi – roedd y rhain yn cynnwys arferion diogel Covid a sesiynau briffio ar gyfer ysgolion wedi'u teilwra i'r lleoliadau unigol. Mae pob myfyriwr yn cael ei friffio'n rheolaidd gan y coleg yn ganolog ac mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan y timau addysgu ac asesu.

Mae gan y coleg ddisgwyliadau clir o arferion gweithio diogel ledled y campws. Mae masgiau'n cael eu gwisgo ym mhob man cymunedol a disgwylir golchi dwylo a glanweithio rheolaidd. Mae nifer o orsafoedd glanweithio ar draws y campws ac mae bellach yn arfer cyffredin i fyfyrwyr lanweithio'n annibynnol â'r offer maen nhw'n ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Mae aseswyr wedi cynnal gweithdai paratoi gyda'n dysgwyr i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y lleoliad dysgu. Roedd y gweithdai yn cynnwys arferion diogel Covid ochr yn ochr â'r paratoad arferol ar gyfer weithgareddau ymarferol. Mae'r rhain wedi'u cynnal mewn grwpiau swigen cyfagos fel yr amlinellir isod.

Nid oes gennym ni oddefgarwch o ymddygiad esgeulus o Covid-19 yn ein hadran – cafodd hyn ei atgyfnerthu yn y dyddiau cynnar drwy fynediad â hawl yn unig i adeiladau gan sefydlu pellter 2m, gwisgo masgiau a glanweithio'n rheolaidd. Gweithiodd yr holl staff er mwyn atgyfnerthu hyn ac fe wnaethom aros wrth y mynediadau am rai dyddiau er mwyn atgoffa fel bo'r angen. Daeth dysgwyr i arfer gyda'r drefn newydd hon yn fuan ac mae bellach yn drefn awtomatig.

Dim ond hanner y swm arferol o ddisgyblion a geir o fewn dosbarthiadau er mwyn caniatáu digon o le a chynhelir awyru da ochr yn ochr â'r arferion glanweithio. Mae'r grwpiau hyn yn ffurfio swigod cyfagos ac mae cyrsiau yn cael eu cadw o fewn swigen ehangach o nifer cyfyngedig gyda nifer bychan o staff. Caiff yr amser hwn ar y campws ei gefnogi gan ddarpariaeth ar y rhyngwyd a chyfunol.

Dangosodd adborth cynnar gan ein haseswyr a'n dysgwyr ar leoliad fod defnyddio'r awyr agored yn ffordd wych o reoli ymweliadau asesu. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus i allu cynnig cyfle i rai o'n dysgwyr weithio gyda phlant ifanc o feithrinfa ddydd y coleg yn yr Ysgol

Goedwig sydd gennym. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i'r dysgwyr a'r plant. Dyma oedd adlewyrchiad un dysgwr yn dilyn ei sesiwn gyntaf: "Nid wyf erioed wedi gwenu cymaint yn fy mywyd. Dyma'r peth gorau i mi ei wneud erioed."

Yn ddiweddar rydym wedi adolygu ein darpariaeth ac mae arwyddion cynnar yn llwyddiannus iawn – mae dysgwyr yn dod yn eu blaenau ac mae materion diogelwch yn cael eu cynnal. Ein hunig bwynt i'w ddatblygu yw'r angen ar gyfer mwy o gyfleoedd lleoliad i'n carfan newydd allu cychwyn lleoliad dysgu ochr yn ochr â'r garfan sydd wedi'u gohirio.

Mae profiad gwaith yn rhan sylfaenol o'r cyrsiau hyn a ni all myfyrwyr eu cyflawni hebddynt. Fel tîm staff mae gan bob un ohonom atgofion melys o'n lleoliadau dysgu pan oeddem ni'n hyfforddi ac rydym wir yn mwynhau gwrandao ar brofiadau'r dysgwyr. Mae ein tîm asesu yn y sefyllfa ddelfrydol i allu gweld hyn o lygad y ffynnon. Rydym yn ddiolchgar iawn am y darparwyr lleoliadau hynny rydym yn cydweithio â nhw ar hyn o bryd ac mae croeso i fwy ymuno â ni gan ddefnyddio'r canllawiau a nodir yn y ddogfen hon.



Dysgwyr yn dathlu Ysgol Goedwig wych



Arweinydd ein Ysgol Goedwig neu Ms Fox



Trafodaeth rhwng dysgwyr ar leoliad a'u haseswyr o bellter cymdeithasol